



Delfryn
Llwynpïod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367
Ffacs/Fax: 01974 298 089
E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON NOS LUN/MONDAY 20.01.2020
@ 7.30 yh/pm YN Y NEUADD GOFFA/IN THE MEMORIAL HALL

COFNODION CYFARFOD IONAWR 2020
MINUTES OF JANUARY 2020 MEETING

1. **ADRODDIAD YR HEDDLU / REPORT FROM THE POLICE**

Soniwyd am y newyddion trist i deulu a fu mewn damwain tân yn Ffair Rhos yn ddiweddar a chydymdeimlwyd â'r teulu.

Misoedd Tachwedd a Rhagfyr wedi bod yn weddol dawel yn y dre ar y cyfan ond soniwyd am rai o'r digwyddiadau a gymerodd lle.

The tragic fire accident in Ffair Rhos was mentioned and deepest sympathy was extended to the family concerned.

November & December had been reasonably quiet on the whole but a brief overview of the incidents that occurred were given by the police.

2. **CROESO / WELCOME**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i gyfarfod misol a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

The Chairman welcomed all to the monthly meeting and wished all present a Happy New Year.

PRESENNOL / PRESENT: Cyng/Cllr Arwel Jones (Cadeirydd/Chair), Cyng/Cllr Catherine Hughes, Ann Jones, Evan Jones, Rhian Jones, Alun Owen. June Owens & Cyng/Cllr Rhydian Wilson.

3. **YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES:** Cyng/Cllr Gwilym Jenkins

4. **MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS**

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report*

5. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

Dim i'w gofnodi / *Nothing to declare.*

6. **CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 16.12.2019**

Cynnig / *Proposer:* Cyng/Cllr Alun Owen

Eilio / *Seconded:* Cyng/Cllr Ann Jones

7. **MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES**

7.1 Diolchwyd i Cyng June Owens a Cyng Rhian Jones am ymgymryd â'r arolwg gweledol.

Cadarnhaodd y Clerc ni ellir prynu arwyddion DIM CWN yn ddwy ieithog yn lleol, ond ei bod wedi gofyn am brisiau o'r canlynol

CCF – Maint A4 £20.55 & TAW

GG Designs – Maint A4 - £8.80 & TAW; Maint A3 - £9.60 & TAW

CADEIRYDD / CHAIRPERSON

Argraffwyr Lewis & Hughes – Maint A4 Foam board = £8.00 & TAW; Maint A4 Foam Board efo laminate - £11.00 + TAW; Maint A4 dibond £13.00 & TAW; Maint A4 dibond efo laminate - £16.00 & TAW; A3 Foam board - £10.00 & TAW; A3 Foam board efo laminate - £13.00 & TAW; A3 Dibond - £15.00 & TAW; A3 Dibond efo laminate £18.00 & TAW.

Trafodwyd yr uchod i gyd a chytunwyd yn unfrydol i'r Cadeirydd ymweld â chwmmi Argraffwyr Lewis & Hughes i weld y wahanol fathau o'r boards a chytunwyd iddo archebu 3 x A3 o'r fath gorau fydd yn siwtio'r parc a'r tywydd.

Cyng Ann Jones i ymgymryd ag arolwg gweledol y parc am y mis i ddod.

Gofynnir i'r clerwr gysylltu ag Un Llais Cymru i weld sut all y Cyngor Tref weithredu is-ddeddfau tuag at berchnogion cŵn yn gadael i'r cŵn fynd yn rhydd a chreu baw cŵn oddi amgylch y dre.

Cyng Arwel Jones wedi cyflwyno cais am grant i RAY Ceredigion am ddeunydd yn y parc chwarae.

Dim ymateb wedi'u dderbyn oddi wrth TTS am y gwaith sydd angen eu gwneud yn y parc, Cyng Evan Jones i ymweld â TTS.

Cllr June Owens & Cllr Rhian Jones were thanked for carrying out visual inspections on the parc during the past month.

Clerk confirmed that she was unable to purchase bi-lingual NO DOGS signs locally but had made requested quotations from local companies: -

CCF Ltd – A4 £20.55 & VAT

GG Designs – A4 - £8.80 & VAT; A3 £9.60 & VAT

Lewis & Hughes Printers – A4 foam board £8.00 & VAT; A4 foam board & laminate £11.00 & VAT; A4 dibond £13.00 & VAT; A4 dibond & laminate £16.00 & VAT; A3 foam board £10.00 & VAT; A3 foam board & laminate £13.00 & VAT; A3 Dibond £15.00 & VAT; A3 Dibond & laminate £18.00 & VAT.

All quotations were discussed and it was unanimously agreed that the Chairman inspects all types of board and it was agreed to order 3 x A3 suitable boards from Lewis & Hughes Printers.

Cllr Ann Jones to undertake the next visual park inspection.

Clerk was asked to contact One Voice Wales regarding the possibility of the Town Council obtaining a bylaw against the dog owners losing their dogs and fouling around the town.

Cllr Arwel Jones has submitted a grant application from RAY Ceredigion for items in the children's park area.

No response received from TTS regarding the necessary works to be carried out in the children's park, Cllr Evan Jones to visit and make inquiries.

- 7.2 Cynhaliwyd cyfarfod efo Steffan Griffiths a Simone Eade ar 8fed o Ionawr lle trafodwyd y cynllun llifogydd. Cytunwyd bod angen i'r Cyngor Tref gwblhau'r cynllun a'i hanfon ymlaen i Simone Eade. Soniwyd mae'r Ysgol Henry Richard yw'r man ymgynnull bellach. Cyng Catherine Hughes i anfon linc y gwefan i'r Clerwr i gylchredeg i'r Cynghorwyr.

A very successful meeting was held between Steffan Griffiths & Simone Eade on 8th January where the flood plan was discussed. It was agreed that the Town Council were required to complete the flood plan and forward to Simone Eade. It was mentioned that the Ysgol Henry Richard school was now the assembly point. Cllr Catherine Hughes to forward to website link to the Clerk to circulate.

- 7.3 Cyngor Sir i dderbyn dyddiad dechrau ar y gwaith oddi wrth TTS i atgyweirio'r tarmac oddi amgylch CCF am y Ganolfan Hamdden.

County Council are awaiting a start date from TTS for the repair works on the road around the CCF towards the Leisure Centre to commence.

- 7.4 Trafodaethau ynglŷn â phared Gŵyl Dewi ar 28 Chwefror 2020 yn parhau ac yn nwylo Rhodri Francis. Soniwyd bod cynllun wrth gefn petai'r tywydd yn wael. Cytunwyd i'r Cyngor Tref dalu am y drwydded i gau'r ffordd.

Discussions regarding the St David's Parade are continuing with Rhodri Francis. A back plan was also in place in inclement weather. Town Council agreed to pay the licence fee for the road closure.

- 7.5 E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Kieran Elliott, Elliott Conservation yn cynnig gwneud y gwaith am £200 yn flynyddol neu £350 bob dwy flynedd. Cytunwyd i ofyn iddo gario allan y gwaith bob dwy flynedd am £350 ac iddo fe ddod a tele-handler ei hunan. Gofynnir i'r Clerc gadarnhau hyn gan Mr Elliott gan ofyn iddo gario allan y gwaith tuag adeg y Pasg ac yn sicr cyn digwyddiad Tregaroc ar 16 Mai 2020.
E-mail received from Mr Kieran Elliott, Elliott Conservation tendering to carry out the necessary works for £200 annually or £350 every two years. Councillors agreed to employ Mr Elliott to carry out the works every two years and for him to supply the tele-handler himself. Clerk to confirm this with Mr Elliott and request the works be done over the Easter Period and completed before Tregaron on 16th May 2020.
- 7.6 Diolchwyd i Cyng Evan Jones am ddatgymalu a chael gwared a'r goeden Nadolig.
A vote of thanks was given to Cllr Evan Jones for removing the Christmas tree.
- 7.7 Soniwyd bod perchnogion Rose Terrace, Courier Street i gyd heblaw perchennog rhif 1 wedi torri'r clawdd nôl, cytunwyd i'r Cadeirydd ymweld â theulu rhif 1 a gofyn iddynt ei dorri gan gynnwys top y berth hefyd.
It was mentioned that the owners of Rose Terrace, Courier Street, apart from No 1 had all cut the hedgerow leading up to the Secondary School, it was agreed that the Chairman would visit the family of No 1 and ask if they could trim the hedgerow along with the top of it.
- 7.8 Gan nad oedd dim wedi'u wneud am ail-leoli'r bollards oddi amgylch Henry Richard i hadael ceir barcio ar y palmant gofynnir i Cyng Catherine Hughes siarad â'r adran berthnasol yn y Cyngor Sir.
As nothing had been done about re-instating the bollards around Henry Richard to stop vehicles parking on the pavement, Cllr Catherine Hughes was asked to contact the County Council to arrange.
- 7.9 Soniwyd mai'r Ganolfan Hamdden sy'n gyfrifol am lanhau oddi amgylch y Ganolfan.
It was mentioned that it was the Leisure Centre's responsibility to clean around the Leisure Centre.
- 7.10 Soniwyd bod y lori fawr sydd tu allan i D J Tyres yn cael ei symud yn fuan.
Large lorry outside D J Tyres will be moved in the near future.
- 7.11 Derbyniwyd cadarnhad bod y ffordd rhwng Brynheulog a'r Clwb Rygbi yn mynd i gael ei hail darnacio rhwng 3ydd a 7fed o Chwefror 2020.
Confirmation received that the road between Brynheulog and the Rugby Club was to be re-surfaced between 3rd & 7th February 2020.
- 7.12 Golau rhif SL10 2233 Stryd yr Orsaf dal ddim yn gweithio, Clerc wedi hysbysu'r Cyngor Sir dair gwaith am y lamp yma.
Street Lamp SL10 2233 still not working, Clerk had informed the Council three times previously.
- 7.13 Cyng Catherine Hughes i edrych mewn i'r posibilrwydd o gael arosfan bws ar y sgwâr fawr.
Cllr Catherine Hughes to make further inquiries regarding a bus shelter on the main square.

8. **CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS**

- 8.1 Gweithiwr Strydlun/Street Scene Worker (Rhagfyr/December) £190.49
- 8.2 Clerc/Clerk (Rhagfyr/December) £273.00
- 8.3 HMRC NIC/TAX Mis/Month £59.20
- 8.4 Aswiriant Zurich Insurance £1,275.21
- 8.5 Jeff Jenkins Trydanwr/Electrician £1,320.00
- 8.6 Balans y banc/Bank Balance (cyfrif cyffredinol/general account) £28,172.43
- 8.7 Sieciau heb glirio / uncleared cheques £560.82
- 8.8 Gan nad oedd cyfrif y cadeirydd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, banciwyd arian ychwanegol Strictly Caron Dancing yn y cyfrif hynny.
As the Chairman's account was not being used for the time being, Clerk has deposited the Strictly Caron Dancing funds in that account.

CADEIRYDD / CHAIRPERSON

8.9 Trafodwyd y praesept 2020-21 a chytunwyd i gwrdd eto yn dilyn cyfarfod agored Apêl Tregaron Eisteddfod 2020 a fu'n cwrdd nos Fercher 22 Ionawr 2020 wedi iddynt drafod beth maent angen ei wneud oddi amgylch y dre i baratoi erbyn Eisteddfod 2020.

The 2020-21 Precept was discussed and it was agreed to postpone any decision until after the Tregaron Appeal meeting which had been scheduled for Wednesday 22nd January 2020 and meet following that meeting to decide what the members would like to be done around the town leading up to the Eisteddfod 2020.

Cynnig / Proposer: Cyng Evan Jones

Eilio / Seconded: Cyng June Owens

9. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / REPORT FROM THE STREET SCENE WORKER**

Cadarnhad wedi'u dderbyn bod y gweithiwr strydlun wedi glanhau tu cefn i'r Eglwys am Doldre ac wedi glanhau'r palmant lan y Pentre.

Confirmation received that the Street Scene worker had cleaned the path from the Church down to Doldre as well as the pavement up the Pentre.

10. **CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS**

Rhif y Cais/Application No A191039

Ymgeisydd / Applicant: S Cope

Safle / Site: Land to the rear of Talbot Yard, Cylch Caron, Dewi Road, Tregaron

Y bwriad/Intention: Erection of a Class D1 Integrated health Care Centre, Class C2 extra care housing and associated works

Cytunwyd i gefnogi'r cais / *It was agreed to support this application.*

11. **CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING APPROVED**

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*

12. **CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*

13. **UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES**

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*

14. **CYNLLUNIAU LLE / PLACE PLANS**

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*

15. **PROSIECT CYLCH CARON PROJECT**

Cynhelir cyfarfod Bwrdd Cylch Caron ar 29 Ionawr 2020.

A board meeting of the Cylch Caron is to be held on 29th January 2020.

16. **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU 2020**

Gofynnir i'r Cynghorwyr fynychu cyfarfod agored Apêl Tregaron nos Fercher 22 Ionawr 2020 am 7.30 yh i drafod beth sydd angen ei wneud oddi amgylch Tregaron i baratoi am Eisteddfod 2020 a threfnwyd cyfarfod i ddilyn o'r Cyngor Tref i benderfynu ar swm y praesept 2020-21.

All councillors were asked to attend the Tregaron Appeal meeting scheduled for Wednesday evening 22 January 2020 at 7.30pm to discuss the works needed to be done around the town in preparation for the Eisteddfod 2020 and also a Town Council meeting would be held following this meeting to agree on the amount of precept to request.

CADEIRYDD / CHAIRPERSON

17. **PROSIECT PWLL NOFIO (TRIP) SWIMMING POOL PROJECT**
Nid oes yna gyfarfod wedi'u drefnu eto gan fod aelodau o'r Cyngor Sir fod mynd allan i asesu'r Ganolfan Hamdden.
Derbynnir galwad ffôn oddi wrth Mrs Seddon yn datgan ei chonsyrn am y pwll nofio. Cyng Rhydian Wilson wedi siarad efo hi
No local meeting had been arranged to date as members of the County Council were expected to visit the Leisure Centre in person.
A telephone call had been received from Mrs Seddon expressing her concern regarding the swimming pool. Cllr Rhydian Wilson has since spoken with the lady.
18. **SEDDI GWAG**
Gan nad oedd dim un cais wedi'u dderbyn gan y Cyngor Sir, penderfynwyd co-optio, Cyng Alun Owen â Cyng Evan Jones i gysylltu â'r clerc efo'r personau a diddordeb.
As there were no volunteers interested in the posts, it was agreed to co-opt, Cllr Alun Owen & Cllr Evan Jones to inform the clerk of the interested parties.
19. **GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE**
- 19.1 Clerc i anfon llythyr i longyfarch Sioe Tregaron ar ddathlu ei 50 mlynedd, ynghyd ag anfon llythyr i CFFI Tregaron sydd hefyd yn dathlu 70 mlynedd.
Clerk to write and congratulate Tregaron Show on reaching 50 years along with the Tregaron YFC for reaching 70 years.
- 19.2 Clerc wedi cwblhau'r ffurflenni perthnasol i gofrestru dyletswyddau awtomatig gyda'r rheolydd pensiynau yn llwyddiannus, dylid gwneud hyn bob tair blynedd.
Clerk has successfully completed the automatic enrolment duties with The pensions Regulator, this procedure is to be done every three years.
- 19.3 Manylion i law am 'Ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y canllawiau Cynllun Datblygu Lleol Powys' – dim gweithrediad.
Details to hand on the 'Public consultation regarding Powys Local Development Plan' – No action taken.
20. **UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS**
- 20.1 Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir am y ddamwain sydd wedi digwydd i bostyn golau stryd tu allan i Gerlan, 4 Heol yr Orsaf, Tregaron.
Clerk to inform the County Council of the accident to the electricity post outside Gerlan, 4 Station Road, Tregaron.
- 20.2 Twll wrth ochr y ffordd ar ben lôn Pyllau Duon ar y ffordd lan am Tyncelyn.
Pothole in the road at the end of Pyllau Duon entrance on the left up towards Tyncelyn.
- 20.3 Tyllau wedi cronni ar ben lôn TTS Tregaron angen sylw'r Cyngor Sir.
Potholes have occurred on the roadside at the end of TTS lane, clerk to inform the County Council.

TERFYNWYD Y PWYLLGOR / MEETING WAS CLOSED

CADEIRYDD / CHAIRPERSON